## ATODLEN 2

## DIWYGIADAU I'R FFURFLEN O'R ENW "CAIS AM GRANT ADLEOLI"

**8.** Ar ôl nodyn 53, mewnosoder —

> "**53A.** Mac plentyn yn ababl at ddibenion cwestiynay **4.37, 4.37A** a **4.38** os yw wedi'i gofrestru'n ddall ar gofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Deddf Cymorth Gwladol 1948 (gwasanaethau lles) neu, yn yr Alban, a ardystiwyd yn ddall ac o ganlyniad i hynny a gofrestrwyd yn ddall ar gofrestr a gynhelir gan neu ar ran awdurdod lleol yn yr Alban neu a beidiodd â chael ei gofrestru'n ddall mewn cofrestr o'r fath o fewn 28 wynthnos yn union cyn dyddiad y cais. Mae plentyn yn anabl at ddibenion y cwestiynau hyn hefyd os telir lwfans byw i'r anabl iddo, neu os talwyd lwfans byw i'r anabl iddo hyd nes iddo fynd yn glaf.".